

Sgript ar gyfer William Phillips Augmented Reality yn Croft Barn

Helo - William Phillips ydw i - ffermwr yma yn Trerhiw Fawr.

Fe helpodd fy nhad i adeiladu'r ysgubor ddyrnu yma 20 mlynedd yn ôl pan oeddwn i'n grwt.

Ar ôl y cynhaeaf pan fydd pawb yn helpu i dorri a mydylu'r yd - y rhan fwyaf ohono fe'n rhyg - mae'n dod i'r fan hyn i le sych.

Rydyn ni'n pentyrru'r bwndeli mor uchel â'r drws llwytho, ac os oes yna ragor ry'n ni'n ei roi e i mewn ffordd hyn [mae'n oedi a phwyntio at y drws llwytho, top chwith].

Mae'r bwndeli'n cael eu rhoi ar y llawr dyrnu [oedi i bwyntio'n syth ymlaen] a'i fwrw gyda ffust [mae'n dal ffust ac yn dangos sut mae'n symud] i wahanu'r clustiau oddi wrth y gwellt - mae'n waith sychedig gyda'r llwch yn mynd i bob cornel - rydyn ni'n talu i'r cymdogion gyda seidr sydd wedi'i wneud ar y fferm: chwart y dydd os yw'n mynd yn dda!

Yna mae'r drysau mawr yn cael eu hagor [oedi a phwyntio ymlaen chwith a de] er mwyn i'r drafft chwythu'r mân us bant o'r grawn fydd wedyn yn cael ei gasglu mewn sachau a'i gadw ar y top [oedi a phwyntio ymlaen i'r llofft] mas o gyrraedd y llygod mawr - ry'n ni angen y grawn i'n bwydo ni, nid y fermin, felly rydyn ni'n cau cath y fferm yma i'w dal nhw!

Bydd y sachau grawn yn cael eu cario i'r felin ar hyd nant Trerhiw i gael ei falu'n flawd a'i wneud yn fara - torth ryg - wedi ei thorri'n dafelli trwchus - sy'n ddigon da i ni'r werin - yn wahanol i'r bara peilliad mae'r crachach yn ei fwyta.

Well i fi fynd nawr - da cwrdd â chi.

“Roeddwn i'n gweld yr AR yn helpo oherwydd roeddech chi'n gallu gweld sut byddai'r bobl yn gweithio a beth oedden nhw'n wneud” Jake 11 oed